# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# 1 CHWEFROR 2023

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 1 Chwefror 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Gladys Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers a Dan Rose

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Mike Allport, Paul Cunningham a Carol Ellis

**HEFYD YN BRESENNOL**:
Mynychodd y Cynghorwyr Marion Bateman a Linda Thew fel Aelodau Lleol ar gyfer eitem 6.2 (063810) ar y Rhaglen.
Roedd y Cynghorydd Chrissy Gee yn bresennol fel arsylwr.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 44. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Bernie Attridge gysylltiad personol yn eitem 6.2 ar y rhaglen (063810) gan fod gwrthwynebwyr wedi cysylltu ag o ar fwy na phedwar achlysur.

## 45. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod a'u hatodi i'r eitem ar y rhaglen ar wefan y Cyngor:

https://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=5282&LLL=1

## 46. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2023 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Bernie Attridge a Mike Peers eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

**47. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) nad oedd swyddogion wedi argymell gohirio unrhyw rai o'r eitemau ar y rhaglen.

**48. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

Dywedodd y Cyfreithiwr wrth y Pwyllgor fod yr adroddiadau ar y rhaglen yn cyfeirio at bolisïau'r Cynllun Datblygu Unedol a'r Cynllun Datblygu Lleol, gan eu bod wedi'u paratoi cyn i'r Cyngor fabwysiadau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn ffurfiol ar 24 Ionawr 2023. Dywedodd gan fod y CDLl bellach yn brif ddogfen strategaeth a pholisi y dylai'r Cyngor wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac apeliadau yn ei herbyn, rhaid i Aelodau ystyried polisïau'r CDLl ac ystyriaethau materol eraill wrth benderfynu ar y materion a gyflwynir. Mae'r safbwynt diwygiedig ar bolisïau CDLl perthnasol wedi cael ei adlewyrchu yn y sylwadau hwyr a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

**49. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 2.55pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau yn:http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 1 CHWEFROR 2023**

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| RES/ 000385/22 | Cyngor Cymuned Sealand | Materion a gedwir yn ôl - Cais am uned storio a dosbarthu gyda swyddfeydd ategol, mynedfeydd cysylltiedig, lle parcio ceir, iardiau gwasanaeth, porthdy diogelwch, is-orsaf drydan, cwt pwmpio a gwaith tirlunio yn Llain B, The Airfields, Porth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy | Siaradodd Miranda Bell (yr ymgeisydd) o blaid y cais. | Cefnogi'r cais cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 063810 | Cyngor Cymuned Llaneurgain | Codi 12 o gabanau gwyliau, derbynfa/swyddfa a gweithdy/storfa offer ym Mharc Gwledig Llaneurgain, Llaneurgain | Darllenwyd datganiad yn erbyn y cais ar ran Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru.<br><br>Siaradodd John Dennan (preswylydd) yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Marion Bateman a Linda Thew (Aelodau Lleol) yn erbyn y cais. | Gohirio'r cais er mwyn aros am ganlyniad yr apêl bresennol a gyflwynwyd trwy Benderfyniadau Amgylchedd Cynllunio Cymru (PEDW) ar gyfer datblygiad cabanau gwyliau o fewn y parc gwledig (a gyflwynwyd o dan 063500) oherwydd ystyrir fod y ceisiadau wedi'u cysylltu'n benodol. |

| **RHIF YR EITEM** | **CYNGOR TREF/ CYMUNED** | **SAFLE / CAIS** | **SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL** | **PENDERFYNIAD** |
|---|---|---|---|---|
| 063033 | - | Materion Cyffredinol - Newid defnydd tir ar gyfer gosod carafanau at ddiben preswyl yn Dollar Park, Bagillt Road, Treffynnon. | - | Cefnogi’r cais yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |